Papur Briffio

# Myfyrio ar weithrediad Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc (PPI)



**Cefndir**

Mae diwygio ADY yng Nghymru, a gyflwynwyd trwy Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod Ymarfer ADY (2021), yn disodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) flaenorol ag un system unedig ar gyfer PPI 0-25 oed. Mae'r system newydd hon yn troi o gwmpas ymrwymiad i ymarfer person-ganolog, ymyrraeth gynnar ac effeithiol, a chynnwys PPI a theuluoedd yn ystyrlon. Roedd y penderfyniad i ddisodli'r system flaenorol yn deillio o gydnabyddiaeth gyffredinol bod y fframwaith AAA wedi dyddio, ac nad oedd bellach yn addas at y diben.

Dechreuwyd gweithredu'r system ADY newydd ym mis Medi 2021, gyda chyfnod pontio oedd i ddod i ben yn 2024. Fodd bynnag, gan gydnabod yr heriau ymarferol roedd ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu hwynebu, yn enwedig yn dilyn pandemig covid-19, estynnodd Llywodraeth Cymru y cyfnod hwnnw am un flwyddyn, i fis Awst 2025.

Mae'r cyfnod hwn yn gyfle pwysig i fyfyrio ar effeithiolrwydd y diwygio o ran cyflawni'r prif egwyddorion, yn enwedig yr ymrwymiad i sicrhau bod barn, teimladau a dymuniadau plant yn cael eu clywed, fel yr esboniwyd yn Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

**Rhoi Diwygio ADY ar waith**

Y bwriad wrth estyn y cyfnod gweithredu hwn oedd caniatáu amser ychwanegol i drosglwyddo pob PPI o'r system AAA i'r fframwaith Cynlluniau Datblygu Annibynnol (CDA) newydd, gan gynnal ansawdd a chysondeb y gefnogaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaed cynnydd o ran gwreiddio egwyddorion y system newydd, yn arbennig y symudiad at fframwaith 0-25 oed unedig, cyflwyno CDAiau ar ffurf cynllun sengl statudol, a chydweithio amlasiantaeth rhwng addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r

pontio hefyd wedi amlygu heriau megis amrywiad yng nghapasiti awdurdodau lleol, y llwyth gwaith gweinyddol sylweddol sy'n gysylltiedig â datblygu CDAiau, a'r angen am hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus i staff.

Wrth i'r cyfnod hwn ddod i ben, mae cyfle i fyfyrio ar i ba raddau mae gwerthoedd craidd y system, sef cynhwysiad, ymarfer person-ganolog, ac ymyrraeth gynnar yn cael eu gwireddu'n ymarferol effeithiol. Elfen ganolog o hynny yw ystyried a yw lleisiau PPI yn wir yn dylanwadu ar gynllunio unigol a chyflwyno ehangach.

**Lleisiau PPI wrth Ddiwygio ADY**

Uchelgais canolog wrth ddiwygio ADY yw gwneud PPI yn ganolog i benderfyniadau ynghylch eu haddysg a'u cefnogaeth. Mae hyn yn adlewyrchu egwyddorion ymarfer person-ganolog a wreiddiwyd yn y Cod ADY, yn ogystal ag ymrwymiad ehangach Cymru i CCUHP.

Y bwriad wrth symud o Ddatganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (DAAA) i CDAiau oedd sicrhau bod dymuniadau a theimladau PPI yn cael eu hystyried ym mhob cam o'r broses gynllunio ac adolygu. Mae'r Cod yn gofyn bod ymarferwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio persbectif plant, i gyflwyno gwybodaeth mewn fformatau hygyrch, ac yn eu cynnwys yn ystyrlon mewn trafodaethau ynghylch eu dysgu a'u cefnogaeth. Mae'r newid hwn o ran theori yn ceisio cyflawni Erthygl 12 o CCUHP, sy'n datgan bod gan bob plentyn hawl i fynegi barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw.

Comisiynwyd Plant yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â PPI mewn lleoliadau addysg ledled Cymru i gasglu eu profiadau o'r Ddeddf ADY. Mae adolygu'r adroddiad diwedd blwyddyn ar sail y gwaith hwn ac amlygu'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn allweddol i sicrhau cipolwg ystyrlon ar farn plant ynghylch y diwygio.

**Themâu sy'n dod i'r amlwg o'r ymgysylltu a'u goblygiadau o ran hawliau plant**

Mae PPI yn amlygu enghreifftiau cadarnhaol lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwrando a'u cynnwys, ond hefyd heriau parhaus megis cefnogaeth anghyson gan athrawon, amgylcheddau anniogel neu rai sy'n eu llethu, ansawdd amrywiol i CDAiau, a bylchau yn y cwricwlwm sy'n golygu bod rhai PPI yn teimlo eu bod wedi colli diddordeb.

1. C**ydberthynas a chefnogaeth**

Erthygl 12 Hawl i gael eich clywed, Erthygl 29 Nodau Hawl i Addysg

"Dwy ddim yn gofyn am help rhag ofn iddyn nhw feddwl mod i'n od neu'n dwp"

Rhannodd PPI, pan fyddai athrawon yn cymryd amser i'w deall nhw a'u hanghenion unigol, fod hynny'n aml yn golygu bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n well. Ymhlith y dulliau gweithredu effeithiol oedd yn cefnogi hyn roedd amgylcheddau person-ganolog, ysgol gyfan, ystwyth ac ymatebol, ac arfer cydberthynol.

Mae arfer cydberthynol yn golygu meithrin perthnasoedd parchus, llawn ymddiriedaeth, lle mae PPI yn teimlo'n ddiogel, yn emosiynol ac yn gorfforol, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed. Fodd bynnag, mae cysondeb arfer cydberthynol yn amrywio o ysgol i ysgol. Adroddodd rhai PPI fod athrawon heb y sgiliau na'r wybodaeth angenrheidiol i gynnig Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY), ac roedd hynny'n peri iddyn nhw fynegi teimladau o rwystredigaeth, diffyg hunan-barch a datgysylltiad.

Ar ben hynny, mynegodd PPI eu bod weithiau'n teimlo'n analluog i fod yn agored a gonest am eu hanghenion cefnogi oherwydd pryderon ynghylch ypsetio athrawon neu gael cyfoedion yn gwneud hwyl am eu pennau.

Rhaid i ysgolion sicrhau bod gan athrawon y sgiliau, yr wybodaeth a'r adnoddau angenrheidiol i wreiddio arfer cydberthynol ar draws eu lleoliadau. Dylai PPI deimlo'n hyderus yn mynegi eu barn, a'u bod yn cael eu cefnogi i gyflawni hyd eithaf eu potensial trwy Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUiau) sy'n adlewyrchu eu hanghenion unigryw yn gywir ac yn ymateb iddynt. Pan fydd hynny'n digwydd, mae modd meithrin a datblygu personoliaethau, doniau a galluoedd PPI yn effeithiol.

2. M**annau diogel**

Erthygl 28 – Hawl i addysg, Erthygl 23 – Hawliau plant ag anableddau

"Yn y gwersi mathemateg mae'r athro yn fy nghanmol, mae'n sylwi arna i, mae'n garedig. Mae athrawon eraill yn llawn dealltwriaeth, ac maen nhw'n mynd allan o'u ffordd i sicrhau mod i'n deall y gwaith. Rydw i'n gwybod eu bod nhw eisiau i'r ysgol fod yn lle diogel i fi, a'u bod nhw eisiau i fi fod yn eu dosbarth"

Nododd PPI eu bod yn gwerthfawrogi mannau diogel lle maen nhw'n teimlo'n sicr yn seicolegol, ond mae rhai yn ofni gofyn am y gefnogaeth hon. Fe wnaethon nhw rannu bod ystafelloedd dosbarth cythryblus neu swnllyd yn gallu eu llethu, a bod diffyg rheolaeth ar ymddygiad eu cyfoedion yn eu gadael yn teimlo'n anesmwyth ac yn anniogel. Teimlai PPI yn fwy diogel os oedden nhw'n credu bod athrawon yn wir yn ofalgar yn eu cylch ac yn deall eu hanghenion.

Rhaid diogelu PPI rhag amgylcheddau lle maen nhw'n teimlo'n anniogel ac wedi'u llethu, ac mae'n rhaid i'r rhai sydd ag ADY dderbyn y gefnogaeth angenrheidiol mewn lleoliadau cynhwysol. Rhaid sicrhau hefyd bod eu preifatrwydd yn cael ei barchu a'u bod mewn amgylcheddau sy'n ymatebol, yn gyfarwydd ac yn ystwyth, lle maen nhw'n teimlo'n ddigynnwrf ac wedi ymlacio. Mae arnyn nhw angen athrawon sydd ddim yn disgwyl gormod na dim digon ganddyn nhw, ac sy'n deall eu galluoedd, yn dathlu eu cryfderau ac yn creu cyfleoedd i PPI gael eu hymestyn mewn ffyrdd oedd yn teimlo'n gyfforddus.

3. Y**mwneud â Phrosesau ADY**

Erthygl 13 – Rhyddid mynegiant, Erthygl 23 – Hawliau plant ag anableddau, Erthygl 28 – Hawl i addysg

"Galla i ddweud beth dwi'n hoffi yn yr ysgol, beth dwi eisiau, beth dwi angen ac rydw i'n cael cyfle i archwilio posibiliadau".

Cafwyd enghreifftiau o brosesau ADY effeithiol, ond roedden nhw'n anghyson. Mae'r profiadau o gyfranogi mewn cyfarfodydd CDU a chynllunio person-ganolog yn gymysg, gydag ysgolion yn mabwysiadu amrywiol ddulliau gweithredu. Yn ôl rhai PPI roedd cyfranogiad mewn cyfarfodydd cynllunio person-ganolog yn eu grymuso, ac yn eu galluogi i fyfyrio ar eu cynnydd a chynllunio'u taith addysgol. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ansawdd a pherthnasedd CDU o ran adlewyrchu anghenion go iawn.

Yn unol â pholisi ADY, mae athrawon yn cael hyd i ffyrdd i PPI rannu eu barn a chodi llais ynghylch y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Fodd bynnag, mae PPI eraill yn amlygu diffyg adnoddau a chefnogaeth, ac mae'r rhan fwyaf yn cael bod terminoleg ADY yn ddryslyd. Mae athrawon yn cael hyd i ffyrdd o weithio gyda PPI i lywio dogfennau statudol. Rhaid darparu gwybodaeth i blant mewn fformat hygyrch fel eu bod yn gallu mynegi eu barn yn effeithiol.

4. **Dysgu a'r Cwricwlwm**

Erthygl 28 – Hawl i addysg, Erthygl 29 – Nodau addysg

"Yn yr ysgol maen nhw'n dweud wrthyn ni am sgrifennu pethau lawr hyd yn oed os nad wyf fi wir yn gwybod am beth rydw i'n sgrifennu".

Ar draws pob lleoliad, nododd disgyblion fod diffyg gweithredu ar egwyddorion craidd Dylunio Dysgu Cyffredinol. Roedd sylwadau PPI yn nodi'n bennaf fod athrawon yn defnyddio amrywiol ddulliau cynrychioli (cyflwyno gwybodaeth mewn gwahanol fformatau), ond yn amlygu eu bod yn derbyn dulliau annigonol o fynegiant ac ymgysylltu i arddangos eu gwybodaeth.

Nododd PPI fod diffyg ymgysylltu â'r cwricwlwm yn effeithio nid yn unig ar eu cyflawniadau academaidd, ond hefyd ar eu hiechyd meddwl. Mae teimlo eu bod yn methu deall a chysylltu â'u dysgu wedi'u gadael yn teimlo'n annigonol, yn ddigymhelliant, wedi'u llethu ac yn ynysig. Cyfaddefodd PPI hefyd eu bod yn profi rhwystredigaeth a diffyg cymhelliant pan ddisgwylid gormod neu ddim digon ganddynt yn y gwersi, a bod cyfleoedd cyfyngedig weithiau i ddatblygu eu diddordebau, eu cryfderau a'u doniau. Amlygodd PPI adegau pan fyddai athrawon a chyfoedion yn dangos eu bod yn credu yn eu potensial trwy feddylfryd twf, fodd bynnag, roedd hynny'n anghyson. Dylai PPI gael mynediad at gyfleoedd dysgu cynhwysol.

**Beth nesa?**

Wrth i'r cyfnod o roi diwygiadau ADY ar waith ddod i ben, rhaid sicrhau ffocws ar wreiddio hawliau PPI a chyfranogiad ystyrlon iddynt mewn ymarfer yn ystod y cyfnod nesaf. Dylai PPI sydd â phrofiad bywyd helpu i ddylunio, monitro a gwerthuso systemau ADY. Nod adolygiad Llywodraeth Cymru o fframwaith deddfwriaethol ADY, a lansiwyd ym mis Hydref 2024, yw ceisio gwella eglurder, cysondeb, a chyflwyniad ymarferol y system ADY. Bwriad yr adolygiad hwn yw ymateb i adborth yn sgîl gweithredu, yn enwedig yng nghyswllt amrywiadau ymarfer, diffyg eglurder canllawiau, a diffyg dealltwriaeth o'r fframwaith. Mae cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r adolygiad yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd gan bartneriaid cyflwyno allweddol a rhanddeiliaid ar eu profiad o gyflwyno'r system ADY a'r heriau ymarferol maen nhw'n eu hwynebu. Mae Ysgrifennydd Cabinet Addysg, Lynne Neagle AS hefyd wedi cyflwyno 5 blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod nesaf:

Adolygiad o fframwaith deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Additional Learning Needs (ALN) legislative framework review | GOV.WALES

Trwy raglen gyfranogiad Plant yng Nghymru gyda PPI daeth sawl ystyriaeth i'r amlwg:

- Beth sy'n cael ei wneud i gryfhau'r berthynas rhwng athrawon a disgyblion mewn ysgolion?
- Sut mae athrawon yn cael eu cefnogi'n well i ddeall ac ymateb i anghenion dysgwyr ADY i ddarparu cefnogaeth ddigonol?
- Sut mae gweithredu ADY yn helpu PPI ag ADY i deimlo'n fwy diogel yn yr ysgol?
- Sut mae gweithredu ADY yn cefnogi PPI i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bolisi ADY, ac yn sicrhau bod PPI yn cael mewnbwn i brosesau ADY?
- Sut mae ysgolion yn sicrhau bod dogfennau ADY, h.y. CDUiau/proffiliau un tudalen yn berthnasol ac yn bwrpasol?
- Sut mae ysgolion yn ystyried ynysu ar sail y cwricwlwm ac effaith hynny ar iechyd meddwl disgyblion?
- Sut mae gweithredu ADY yn cefnogi pontio dysgwyr ADY, o'r blynyddoedd cynnar i Addysg ôl-16, lle mae cryfderau a dyheadau PPI yn cael eu cydnabod, eu datblygu a'u gwireddu?

Mae'r ystyriaethau hyn yn cyfateb i'r pum blaenoriaeth yn yr adolygiad. Os rhoddir sylw i'r rhain i gyd, bydd barn PPI ar ddiwygio ADY wedi cael ei gwreiddio'n ystyrlon yn yr adolygiad. Mae'r cyfnod hwn yn gyfle allweddol i wreiddio hawliau plant yn fwy cadarn yn y system ADY fel bod llais pob PPI nid yn unig yn cael ei glywed, ond bod hynny'n troi'n weithredu.